

Adroddiad Blynyddol 2016 – 2017



Cynnwys

GAIR GAN Y CADEIRYDD.....	02
Y BWRDD RHEOLI.....	03
PRIF GYFLAWNIADAU'R FLWYDDYN.....	05
Y PWYLLGOR EIDDO A THENANTIAETH.....	07
Y PWYLLGOR DIWYDIANT AC ECONOMI.....	09
DIWEDDGLO.....	13
CYFRIFON BLYNYDDOL.....	14



Gair gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gen i, am y tro cyntaf fel Cadeirydd, gyflwyno'r Adroddiad Blynnyddol yma sy'n amlinellu gwaith yr Antur am y flwyddyn 2016-2017.

Fel gwelwch o'r adroddiad mae wedi bod yn flwyddyn brysur unwaith eto i'r Antur, lle rydym yn gwneud gwahaniaeth go iawn yma yn Nyffryn Nantlle. Er yr ansicrwydd economaidd ar hyn o bryd, nid yn unig rydym wedi dal ein tir yn gryf ond hefyd wedi datblygu prosiectau newydd.

Mae'n wirioneddol wych gweld Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu yn ffynnu dan ofal yr Antur gyda'r ganolfan bellach yn rhan amlwg o'r sector twristiaeth lleol. Rydym hefyd yn parhau i wella a buddsoddi yn ein hadeiladau sydd yn ei sgil yn gwarchod dros 80 o swyddi lleol.

Rydym wedi bod wrthi yn cynllunio a pharatoi ceisiadau grant ar gyfer prosiect newydd cyffrous a fydd yn rhoi bywyd newydd i hen fanc yr HSBC ym Mhenygroes. Yn ystod y flwyddyn nesaf rydym yn obeithiol bydd ein cais am gymorth ariannol yn llwyddiannus ac y bydd modd i ni wireddu'r cynllun i drawsnewid llawr

gwaelod yr adeilad yn ganolfan gymunedol yn cynnwys deli, siop cynnyrch lleol ac ardal chwarae plant.

Ni fyddai yr holl waith yma yn bosib heb waith diflino Robat, Prif Swyddog yr Antur, a mawr yw ein diolch iddo fel cyfarwyddwyr am ei ddyfalbarhad a'i ymroddiad.

Fel sefydliad rydym yn cysidro ein hunain yn rhan o'r gymuned a'n holl waith er budd yr ardal. Rydym yn awyddus i wrando ar unrhyw fewnbwn ac awgrymiadau sydd gan bobl y Dyffryn, felly hoffwn ymestyn gwahoddiad i chi gysylltu â'r swyddfa i drafod unrhyw syniad sydd gennych.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at waith yr Antur eleni, yn swyddogion, gofalwyr, tenantiaid, gwirfoddolwyr, cyfarwyddwyr, adeiladwyr a thrigolion y Dyffryn.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall yn 2017 - 2018.

Diolch yn fawr,

OWAIN ROWLANDS
CADEIRYDD

Y Bwrdd Rheoli



Owain Rowlands
CADEIRYDD



Richard Wyn Huws
IS-GADEIRYDD



Myrddin Williams



Dafydd Owen



Gwynne Williams



Beryl Fretwell



Emrys Jones



John Pritchard



Karen Owen



Dyfed Edwards



Judith Humphreys



Talfryn Griffiths



Eifion Davies



Alun Ffred Jones

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Owain Rowlands CADEIRYDD
Richard Wyn Huws IS-GADEIRYDD
Myrddin Williams
Dafydd Owen
Gwynne Williams
Beryl Fretwell
Emrys Jones
John Pritchard
Karen Owen
Dyfed Edwards
Judith Humphreys
Talfryn Griffiths
Eifion Davies
Alun Ffred Jones

Rheolwr lleoliadau digwyddiadau
Gŵr camera gwobrwyedig a gŵr busnes
Uwch swyddog tai wedi ymddeol
Cyfarwyddwr gwasg a chwmni teithio
Peiriannydd gwresogi wedi ymddeol
Swyddog menter gymdeithasol wedi ymddeol
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi ymddeol
Cyfrifydd wedi ymddeol
Bardd a newyddiadurwraig
Aelod bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru
Cynghorydd Penygroes ar Gyngor Gwynedd
Cyfreithiwr wedi ymddeol
Rheolwr cwmni deunyddiau adeiladu
Aelod Cynulliad wedi ymddeol

Craig ab Iago
(wedi ymddeol ar 6^{ed} Hydref 2017)

Cynghorydd Llanllyfni ac aelod Cabinet Cyngor
Gwynedd

Ysgrifennydd y Cwmni

Robat Jones

Bancwyr

HSBC, Cangen Caernarfon

Archwilwyr

A. Hughes-Jones, Dyson & Co. (Cyfrifwyr Siartredig), Capel Moreia, South Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1NS

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd 6 cyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn. Cyfarfu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth a'r Pwyllgor Diwydiant ac Economi hefyd.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar nos Iau, Tachwedd 17eg 2016 ym Mhant Du, Penygroes. Yn unol â'r cyfansoddiad bu i bedwar o'r cyfarwyddwyr ymddeol o'r Bwrdd – Owain Rowlands, Talfryn Griffiths, Dyfed Edwards a John Pritchard. Ail etholwyd y pedwar.

Staff

Robat Jones
Bet Hughes
Nerys Jones
Nia Noone

Prif Swyddog Antur Nantlle
Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg, y Llyfrgell a Siop 22
Gofalwraig y Ganolfan Fenter
Gofalwraig Tŷ Iorwerth a Chapel Salem

Prif Gyflawniadau'r Flwyddyn



addysg a HYFFORDDIANT

108 wedi derbyn addysg a hyfforddiant

Gwaith marchnata cynyddol i hybu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu a Dyffryn Nantlle yn gyffredinol fel cyrchfan i ymwelwyr, er mwyn cryfhau'r economi leol




Rhoi'r Dyffryn AR Y MAP



Trafod, cydweithio a chefnogi

28 o fudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth; **3,250** wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir

Gweithio ar gais i ddenu buddsoddiad o **£130k** i roi bywyd newydd i'r hen fanc ym Mhenygroes fel deli, siop cynnyrch lleol, man chwarae i blant bach, pwynt gwybodaeth i'r gymuned a phwynt wi-fi ffeibr am ddim



CYNNAL, CADW A GWELLA ADEILADAU YN Y GYMUNED

£61k o fuddsoddiad gan ddefnyddio crefftwyr lleol ble bynnag bo hynny'n bosibl, fel rhan o raglen waith barhaol i gadw'r adeiladau mewn cyflwr da er budd ein tenantiaid a'r gymuned

81 o swyddi wedi eu creu neu eu gwarchod yn ardal Dyffryn Nantlle – cyfraniad sylweddol i'r economi leol



Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu

£13,730^{*}
Incwm 2016

£33,774^{**}
Incwm 2017

919
Nifer o westeion yn 2016


1,603
Nifer o westeion yn 2017

76
Nifer o nosweithiau yn 2016

153
Nifer o nosweithiau yn 2017



■ Gwesteion 2016 (36.44%) ■ Gwesteion 2017 (63.56%)



■ Incwm



■ Nosweithiau 2016 ■ Nosweithiau 2017


* YN CYNWYS TAW

** HYD AT DDYDDIAD PARATO'I'R ADRODDIAD

Y Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth

Cadeirydd: Myrddin Williams

Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth
Antur Nantlle sy'n cadw llygad
ar holl eiddo'r Antur, yn cynnal,
cadw ac uwchraddio er mwyn
sicrhau'r gwerth gorau am arian
i'n tenantiaid. Dyma'r pwyllgor
sy'n trin a thrafod ceisiadau am
unedau'r Antur a braf yw
adrodd fod y mwyafrif helaeth
o'n hunedau a'n swyddfeydd yn
parhau yn llawn, sydd unwaith
eto yn dangos y galw am lefydd
gwaith yn ardal Dyffryn Nantlle.



Mae'n werth nodi fod y rhan fwyaf o unedau
Cyngor Gwynedd a pherchnogion preifat yn yr
ardal hefyd yn llawn, a phan fydd un yn dod yn
wag mae'n cael ei osod eto yn syth, sy'n
galonogol iawn.

Mae cyfraddau rhenti swyddfeydd ac unedau
busnes yr Antur yn parhau i fod yn gystadleuol
a'n telerau yn rhesymol iawn, ac fel rhan o'n
polisi i gefnogi menter yn yr ardal leol, mae'r

Antur unwaith eto yn falch iawn o roi hwb i fusnesau newydd sbon drwy roi dau fis o rent
yn rhad ac am ddim iddynt. Rydym yma i'ch helpu i fentro a llwyddo.

10 adeilad
27 uned waith
20 swyddfa
2 siop
1 caban cysgu
1 llyfrgell
1 ystafell hyfforddiant
1 ystafell gyfarfod
1 iard
1 fflat

Rhaglen o brynu a datblygu eiddo segur yn Nyffryn
Nantlle mewn modd cynaladwy dros 25+ mlynedd
sydd erbyn heddiw wedi arwain at bortffolio
adeiladau gwerth **£1miliwn** wedi eu diogelu ar
ran y gymuned er budd trigolion a'r economi leol

Rydym o hyd yn awyddus i gydweithio gydag unrhyw gorff neu asiantaeth sy'n gweithredu i hybu menter a chreu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn ardal Dyffryn Nantlle, felly mae ein hystafelloedd hyfforddiant a chyfarfod ar gael i unrhyw un sydd eisiau cynnal gweithgareddau o'r math yma. Mae'r ystafell hyfforddiant gyfrifiadurol mewn defnydd bob wythnos gan Addysg Oedolion Cymru sy'n darparu hyfforddiant cyfrifiadurol a digidol, a hefyd gan swyddogion Pecyn 25 / TRAC ar raglen cynhwysedd addysgol i blant a phobl ifanc rhwng 11-24 oed sydd mewn perygl o ddisgyn allan o addysg, hyfforddiant neu waith.

Unwaith eto eleni bu ychydig bach o newid yn rhestr tenantiaid yr Antur, gyda rhai tenantiaid yn symud ymlaen i unedau mwy ac ehangu eu busnesau, tenantiaid newydd yn dod yn eu lle i gychwyn ar eu taith o sefydlu busnes newydd yn Nyffryn Nantlle, a thenantiaid presennol yn parhau i weithio a chynnig eu gwasanaethu i Ddyffryn Nantlle a thu hwnt. Mae'n gyffrous iawn cael gweld a bod yn rhan o'r datblygiadau yma, a braint yw i ni gael chwarae rôl gynorthwyol yn hyn i gyd.



Bwriad yr Antur yw creu cyfleoedd a rhoi seiliau cadarn yn eu lle fel gall pobl leol fentro a llwyddo; ond chi fel entrepreneuriaid – y mentrwyr – y gweithwyr – sydd wir yn gwneud gwahaniaeth i economi'r ardal. Heb gefnogaeth a chymorth yr Antur byddai'r cyfleoedd i fusnesau lleol i sefydlu a thyfu eu busnesau yn hynod o brin, ond heb y busnesau yma a chefnogaeth trigolion lleol iddynt hwythau, ni fyddai'r holl beth yn gweithio. Trwy gydweithio a dyfalbarhau fel un teulu mawr, byddwn yn sicrhau llwyddiant.

Mae'n bwysig nodi cyfraniad staff glanhau yr Antur sy'n gofalu am yr eiddo sef Bet Hughes (Gofalwraig y Llyfrgell, y Ganolfan Dechnoleg a Siop 22), Nerys Jones (Gofalwraig y Ganolfan Fenter) a Nia Noone (Gofalwraig Tŷ Iorwerth a Chapel Salem). Diolch yn fawr am eich gwaith caled yn cadw'r adeiladau yn dwt ac yn daclus er budd y tenantiaid a'u cwsmeriaid.

Y Pwyllgor Diwydiant ac Economi

Cadeirydd: Dafydd Owen

Is-grwpiau Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle sydd yn cyfarfod i drin a thrafod cynlluniau economaidd a chwilio am brosiectau newydd er budd Dyffryn Nantlle. Mae hi'n parhau i fod yn gyfnod anodd ac ansicr iawn ar hyn o bryd, sydd wedi gweld lleihad pellach fyth mewn grantiau sylweddol i gwmnïau fel yr Antur ond mae'r drafodaeth yn mynd yn ei blaen a'r dyhead am weld gwelliant economaidd i Ddyffryn Nantlle yn dal i sbarduno.

Yr ydym yn barod i drafod gydag unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno gyda ni neu sydd â gweledigaeth ac yn barod i weithio o'i wirfodd er lles yr ardal.

Cynnal y presennol a chynllunio i'r dyfodol

Un o ddatblygiadau diweddaraf yr Antur yw Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu. Dyma'r ail flwyddyn gyfan i ni fod yn rhedeg y Ganolfan ac mae wedi bod yn un brysur iawn eto.

Rydym wedi bod wrthi yn cynnal gweithgareddau marchnata amrywiol i godi ymwybyddiaeth a lefel defnydd y caban cysgu arbennig hwn ym mhentref Rhyd Ddu – lleoliad delfrydol i ganolfan o'r fath ar droed Crib Nantlle a llwybr Rhyd Ddu i gopa'r Wyddfa. Mae hefyd gerllaw un gorsaf y rheilffordd dreftadaeth hiraf yn Ewrop ac o fewn cyrraedd i holl atyniadau Gogledd Cymru – a gydnabyddwyd fel un o'r 10 lle gorau yn y byd i deithwyr yn 2017 gan 'Lonely Planet' (rhywbeth yr ydym fel pobl leol wedi bod yn ei ddweud ers blyneddau wrth gwrs, ond braf serch hynny yw cael cydnabyddiaeth mwy eang o'r ffaith i godi proffil a rhoi hwb i'r economi). Rydym yn awr yn denu ymwelwyr o bob rhan o Brydain a thu hwnt ac yn eu hannog yn gryf i ddod i mewn i'r Dyffryn i weld, i fwynhau ac i gyfrannu i'r adfywiad economaidd mae'r Antur yn ceisio ei sbarduno yn yr ardal drwy wario gyda busnesau bach lleol.



Rydym wedi defnyddio sgiliau crefftwyr lleol i gynnal a chadw'r adeilad yn ystod y flwyddyn, ac hefyd i ddatblygu ystafelloedd sychu pwrpasol ar gyfer offer cerdded ar y safle i wella'r cynnig ymhellach fyth i westeion. Mae safon y cyfleuster yn codi o hyd dan arweiniad profiadol yr Antur.

Pleser yw cael adrodd eto eleni fod dwsinau lawer o ddisgyblion ysgolion Gwynedd a Môn wedi cael y cyfle i aros yn y ganolfan a hynny am bris gostynedig iawn, a dan arweiniad ein partneriad gweithgareddau awyr agored proffesiynol a phrofiadol – Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd (a darparwyr eraill) – wedi mwynhau profiadau awyr agored o'r safon uchaf yn ogystal a chael aros mewn adeilad hanesyddol bwysig gan mai Tŷ'r Ysgol oedd cartref T.H. Parry-Williams.



Cynllunio'r cam nesaf o welliannau a chreu swydd Swyddog Datblygu yw ein nod ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ac mae seiliau cadarn ar gyfer hynny yn eu lle yn barod yn dilyn ein gwaith ers cymryd y ganolfan drosodd yn 2015. Mae llawer o waith eto i'w wneud ond rydym yn barod i dorchi llewys i sicrhau dyfodol disglair i Ganolfan Awyr Agored Rhyd Ddu.



Yr ail brosiect mawr i ni weithio arno eleni yw datblygu cynllun ddaw a dyfodol newydd, hyfyw a disglair i hen fanc yr HSBC ym Mhenygroes a gaeodd ei ddrysau yn y pentref am y tro olaf yn 2014.

Arweiniodd ein profiad o weithio yn y gymuned yn ddyddiol, a chynnal sawl darn o ymchwil i'r hyn oedd ei angen yn y gymuned dros y blyneddau, at ddatblygu cynllun cyffrous a chymysg ar gyfer y banc i ateb y galw sy'n bodoli yn lleol.

Hwb Gymunedol Dyffryn Nantlle yw enw'r cynllun a bydd yn cynnig:

- Deli a fydd yn gweini bwyd lleol ac iach yn cynnwys prydau i fynd, prydau bwyta i mewn, te a choffi, pecynnau bwyd, gwasanaeth arlwyyo allan, a mwy;
- Gofod chwarae i blant bach a man cyfarfod i rieni yng nghanol y pentref;
- Gwasanaethau gwybodaeth i drigolion lleol (bwyta'n iach, trechi tloedi, arbed ynni, cynilo, a mwy) mewn partneriaeth gydag asiantaethau arbenigol;
- Gwasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr (pamffledi busnesau lleol, gwybodaeth ar atyniadau, ayb.) fel ffordd i hybu yr hyn sydd gan Ddyffryn Nantlle a'r cylch i'w gynnig;
- Siop cynnyrch lleol i alluogi cynhyrchwyr lleol i werthu eu cynnyrch yn uniongyrchol, gweithio gyda'i gilydd fel co-op cynhyrchwyr Dyffryn Nantlle a chryfhau'r economi leol drwy a) ehangu eu busnesau a chodi gwerthiant a b) denu rhagor o bobl i'r ardal i fwynhau cynnyrch Dyffryn Nantlle a thra yma ymweld gyda nifer o fusnesau bach eraill yr ardal;
- Pwynt Wi-Fi ffeibr am ddim i'r gymuned.

Rydym wedi gweithio gyda chwmni pensaernïol profiadol lleol i ddatblygu rhan cyntaf y cynllun, ac yn seiliedig ar hynny gwnaethpwyd gais am grant i'n galluogi i wireddu'r prosiect i Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru a chronfa gymunedol Magnox.

Fel mae'r adroddiad yn mynd i'w hargraffu rydym mewn trafodaethau gyda'r swyddogion ac mae'r adborth wedi bod yn ffafriol iawn i'r bwriad a'n cais.

Os cawn y gefnogaeth ariannol angenrheidiol yma, erbyn yr amser yma flwyddyn nesaf fe fydd y banc ar ei newydd wedd wedi agor ei ddrysau i wasanaethu trigolion Dyffryn Nantlle unwaith eto. Croesi bysedd rwan!



Deli, siop cynnyrch lleol, 'co-op' cynhyrchwyr lleol, man chwarae i blant bach, pwynt gwybodaeth i'r gymuned, pwynt Wi-Fi ffeibr am ddim a sesiynau blasu TG a digidol

Cynhyrchwyr
lleol yn cael
cyfle i
gydweithio ar
gynllun arloesol i
rannu adnoddau
a phecynnu
cynnyrch Dyffryn
Nantlle mewn
modd hyfyw a
fydd yn galluogi i
bawb elwa a
thyfu eu
busnesau.



Cyfle i berson lleol
redeg busnes deli
yn cynnwys offer
coginio o safon
uchel – cyfle gwych
i fentro heb gostau
cychwynnol
rhwystredig.

Man cyfarfod i rieni newydd
gael dod at eu gilydd i
gymdeithasu gyda lle diogel
i'r plant chwarae.

Cyswllt Wi-Fi ffeibr yn rhâd
ac am ddim fydd yn dod â'r
dechnoleg ddiweddaraf i
drigolion y Dyffryn.



Hwb i'r gymuned gyda chyfuniad o elfennau cymdeithasol ac economaidd i roi budd i
bawb, a rhan arall o'n gwaith i gryfhau'r economi a chreu cyfleoedd yn lleol.

Diwedd glo

Dyma ddiwedd blwyddyn brysur arall, ac wrth edrych yn ôl rydym yn ymfalchio yn yr hyn a gyflawnwyd. Rydym ynghanol cyfnod mwy heriol ac ansicr nag a welwyd mewn degawdau o ran yr hyn sy'n wynebu'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru, heb son am rai o'r problemau a'r tensiynau sy'n creu pryder mawr yn y byd ehangach ar y funud.

O ran y Dyffryn hwn, mae'r Antur wedi gweithio yn gynnil i gynnal ein gwasanaethau craidd er lles trigolion lleol, ac wrth ddyfalbarhau gyda'n gwaith a pharhau i ymchwilio am gyfleon newydd i'r ardal rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd o'n blaenau ac i wneud gwahaniaethau positif er lles yr ardal unwaith eto. Datblygu mewn modd cynaladwy a hyfyw yw'r nod.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i symud ymlaen gyda'n prif amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf sef:

- datblygu'r banc i greu ased newydd ac amrywiol i'r gymuned
- cyflogi swyddog i rannu gwaith a dyletswyddau cynyddol yr Antur
- denu rhagor o ymwelwyr i'r Dyffryn a datblygu'r diwydiant twristiaeth drwy Ganolfan Awyr Agored Rhyd Ddu
- gwasanaethu ein tenantiaid a chynnal a chadw ein heiddo

Yr un yw nod yr Antur ers ei sefydlu ym 1991: datblygu cynlluniau ddaw a gwelliannau economaidd a chymdeithasol i ardal Dyffryn Nantlle a chreu cyfleoedd i bobl leol fentro eu hunain.

Rydym wastad yma i wrando a thrafod syniadau. Gweithio gyda'n gilydd fel un yw'r ffordd orau i warchod a gwella ein cymunedau. Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â ni i weithio er lles yr ardal. Mae ein drws wastad ar agor.

DIOLCH

ANTUR NANTLLE CYF.

Rhif Y Cwmni : 2618216

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU MAWRTH 31, 2017

**A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON**

ANTUR NANTLLE CYF.

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	1
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	2
Adroddiad Yr Archwilwyr	3
Cyfrif Incwm a Gwariant	4
Mantolen	5
Nodiadau	6 - 8
Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl	9

ANTUR NANTLLE CYF.
Adroddiad Y Cyfarwyddwyr Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2017

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd a'r cyfrifon am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31, 2017.

Prif Weithgareddau

Prif weithgaredd y cwmni yw hybu gweithgareddau sydd er lles economaidd, cymdeithasol ac yr amgylchedd yn Dyffryn Nantlle.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

Talfryn Griffiths	Beryl Fretwell
John Pritchard	Richard Wyn Huws
Dafydd Owen	Emrys Jones
Dyfed Wyn Edwards	Myrddin Williams
Gwynne Williams	Craig ab Iago
Eifion Wyn Davies	Owain Rowlands
Judith Humphreys (Penodwyd 7.12.2016)	Karen Owen (Penodwyd 26.4.2016)
Alun Ffred Jones (Penodwyd 12.12.2016)	

Datganiad O'r Datgeliad Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Cyn belled a mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sydd yn berthnasol i'r archwiliad (fel diffiniwyd gan Adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol ohono, ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymeryd y camau y dylent fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu y bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth yma.

Archwilwyr

Mae A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni wedi datgan eu parodrwydd i barhau yn eu swydd.

Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi ar sail y darpariathau arbennig sydd yn Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

Dyddiad: 16/11/2017

Owain G. Rowlands
 Drwy orchymyn y bwrdd

ANTUR NANTLLE CYF.
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr ar datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio gyda'r gyfraith a rheolau perthnasol.

O dan y Ddeddf Cwmnïau y mae yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon pob blwyddyn. O dan y ddeddf mae'r Cyfarwyddwyr wedi ethol i baratoi y datganiadau ariannol yn unol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig). O dan gyfraith cwmnïau ni ddyliau y Cyfarwyddwyr gymeradwyo y datganiadau ariannol onid eu bod wedi eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o'r gweddill neu'r diffyg am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;
- datgan os yw'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiad materol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio fydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau fod y cyfrifon yn cydsynio efo Deddf Cwmnïau 2006.

Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Dyddiad: 16/11/2017

Quain G. Rowlands.
Drwy orchymyn y bwrdd

Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Nantlle Cyf am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31 2017 sydd yn cynnwys y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol, Cyfrif Elw a Cholled, Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion, Y Fantolen ar nodiadau perthnasol. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol a gofynion cyfreithiol a Ymarferion Cyfrifo Safonol y Deyrnas Unedig (UK GAAP), gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon'.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei greu i aelodau y cwmni, fel corff, ac yn unol a Pennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac i ddim pwrpas arall.

Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Ac Archwilwyr

Fel yr eglurwyd yn fwy llawn yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr ar dudalen 2, y cyfarwyddwyr sydd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn dangos darlun gwir a theg.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r cyfrifon yn unol a gofynion cyfreithiol a rheolau perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau yma yn gofyn i ni gydymffurfio gyda safonau moesegol i archwilwyr sydd wedi eu penodi gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio, gan gynnwys 'safonau moesegol Bwrdd Ymarferion Archwilio - Darbodion ar gael i Gwmnïau Llai (Divygyddig)', yn yr amgylchiadau sydd wedi eu nodi yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol.

Sail yr archwiliad or datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth berthnasol i'r symiau a'r datgeiliadau yn y cyfrifon sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatganiadau sylweddol, a fyddai wedi'u achosi gan dwyll neu gamsyniad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r; amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a wnaed gan y cyfarwyddwyr wrth baratoi'r cyfrifon gan ystyried a yw'r polisiau cyfrifyddia yn briodol i amgylchiadau'r cwmni, ac yn cael e'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; yn ogystal a gwedd gyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rydym yn darllen y gwybodaeth ariannol ac arall yn adroddiad y cyfarwyddwyr er mwyn datgelu unrhyw anghysondeb sylweddol i'r cyfrifon rydym yn eu harchwilio. Os i ni ddod ar draws anghysondeb neu gam-ddatganiad sylweddol, mi fyddwn yn ystyried y gobygiadau ar gyfer ein adroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn mae'r cyfrifon yn:

- rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar Fawrth 31, 2017 ac o'r gweddill ar gyfer y flwyddyn oedd yn terfynu y pryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ac Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o Fewn y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Unedau Llai; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag amodau Deddf Cwmnïau 2006.

Barn ar faterion a benodwyd gan Ddeddf cwmnïau 2006

Yn ein barn mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Y Cyfarwyddwr am y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol i'r flwyddyn mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson gyda'r datganiadau ariannol.

Materion mae'n orfodol i ni adrodd arnynt mewn eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar y materion canlynol ble mae'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ein gofyn i ni adrodd i chi os yn ein barn:

- nad yw'r cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol, neu nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad oddi wrth ganghennau nad ydym wedi ymweld a hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytun ar cofnodion ariannol; neu
- bod datguddiadau sy'n ofynol dan gyfraith cwmnïau yn berthnasol i enillion cyfarwyddwyr heb eu datgelu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cwblhau ein archwiliad; neu
- nid oedd y cyfarwyddwyr yn deilwng i baratoi'r cyfrifon ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol a rheolau cwmnïau bach ac i gymeryd mantais o'r eithriad i gwmnïau bach o gofyniad i baratoi Adroddiad Strategol neu wrth baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Mr Brian Hughes (Prif Archwiliwr Statudol)

ar ran A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni
Archwilwyr Statudol a Cyfrifywyr Siartredig

Dyddiad: 16/11/2017

Capel Moreia, South Penrallt, Caernarfon, Gwynedd LL55 1NS

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2017

	Nodiadau	2017	2016
		£	£
Incwm		132,024	120,662
Gwariant		<u>(134,693)</u>	<u>(97,020)</u>
Incwm Sy'n Weddill	2	(2,669)	23,642
Llog Derbyniadwy		37	108
Llog a Dalwyd		<u>(4,309)</u>	<u>(1,002)</u>
Gweddill Cyn Trethiant		(6,941)	22,748
Trethiant	3	<u>2,618</u>	<u>(7,714)</u>
Gweddill Ar OI Trethiant		(4,323)	15,034
Gweddill Ddygwyd Ymlaen		<u>156,747</u>	<u>141,713</u>
Gweddill Cariwyd Ymlaen		<u>152,424</u>	<u>156,747</u>

ANTUR NANTLLE CYF
Mantolen Ar Fawrth 31, 2017

	Nodiadau	2017		2016	
		£	£	£	£
Asedau Sefydlog					
Asedau Cyffyrddadwy	5		714,349		735,599
Asedau Cyfredol					
Dyledwyr	6	13,591		10,284	
Arian Yn Y Banc Ac Mewn Llaw		<u>87,221</u>		<u>92,419</u>	
		100,812		102,703	
Credydwyrr: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn	7	<u>(35,565)</u>		<u>(23,747)</u>	
Asedau Cyfredol Net			<u>65,247</u>		<u>78,956</u>
Cyfanswm Asedau Llai					
Rhwymedigaethau Cyfredol			779,596		814,555
Credydwyrr: symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn					
Croniadau Ac Incwm Gohiriedig	8		(173,906)		(198,403)
Benthyciadau banc	9		(57,844)		(63,406)
Treth Gohiriedig			(2,476)		(3,053)
			<u>545,370</u>		<u>549,693</u>
Cronfeydd					
Cronfa Elw a Cholled			152,424		156,747
Cronfa Ailbrisio	10		<u>392,946</u>		<u>392,946</u>
			<u>545,370</u>		<u>549,693</u>

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail y darpariaethau arbennig sydd o fewn Rhan 15 o Ddeddf Cwmiau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

Quinn G. Roberts Cyfarwyddwr

R.W. Halls Cyfarwyddwr

16/11/2017 Dyddiad

Rhif Cwmni: 2618216

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2017

1 Polisiau Cyfrifyddol

Y sail gyfrifyddol

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol a gofynion Adran 1A "Unedau Llai" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfrifon wedi ei paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Fe gynhwysir asedau sefydlog cyffyrddadwy yn ol eu cost.

Fe ddibrisir yr asedau dros amcangyfrifiad o'u hoes economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

Tir ac adeiladau	- 4%/5% o'r gost pob blwyddyn
Offer	- 20% drwy'r dull mantol yn lleihau
Cyfrifiaduron	- 25% drwy'r dull mantol yn lleihau

Mae gwariant ar itemau cyfalaf llai £100 yn cael ei trin fel gwariant yn y flwyddyn.

Grantiau

Mae grantiau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog yn cael eu gosod mewn cyfrif incwm gohiriedig. Fe ryddheir swm yn flynyddol i'r cyfrif Incwm a Gwariant sy'n cyfateb i'r dibrisiant a ddarparwyd ar gyfer yr asedau perthnasol.

Trethiant

Mae trethiant ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cynnwys treth gyfredol a gohiriedig. Cydnabyddir treth yn y datganiad incwm, ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitemau a gydnabyddir fel incwm cynhwysfawr arall neu yn uniongyrchol mewn ecwiti.

Nid yw asedau a rhwymedigaethau trethiant cyfredol neu ohiriedig yn cael eu disgowntio. cydnabyddir trethiant cyfredol fel y swm treth sy'n daladwy gan ddefnyddio'r cyfraddau treth a chyfreithiau a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn sylweddol erbyn dyddiad y fantolen.

Treth Ohiriedig

Cydnabyddir treth ohiriedig o ran yr holl wahaniaethau amser sydd wedi tarddu ond heb eu gwrthdroi eto ar ddyddiad y fantolen.

Mae gwahaniaethau amseru'n codi o gynnwys incwm a threuliau mewn asesiadau treth mewn cyfnodau gwahanol i'r rhai y maent yn cael eu cydnabod mewn datganiadau ariannol. Caiff treth ohiriedig ei fesur gan ddefnyddio cyfraddau treth a chyfreithiau a ddeddfwyd erbyn diwedd y flwyddyn a disgwylir iddynt fodoli pan fydd y gwahaniaethau amseru yn gwrthdroi.

Archwilwyr

Yn gyffredin a nifer o fusnesau o'n maint a natur, rydym yn defnyddio ein archwilwyr i baratoi a chyflwyno ffurflenni priodol i'r awdurdodau treth ag i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi y datganiadau ariannol.

2 Incwm Sy'n Weddill

	2017	2016
	£	£
Mae'r incwm sy'n weddill ar ol; <i>Rhoi credyd am;</i> Incwm Gohiriedig a ryddhawyd	<u>24,497</u>	<u>25,194</u>
 <i>Ac ar ol codi am:</i>		
Dibrisiant	21,502	23,583
Archwilio	<u>2,150</u>	<u>2,050</u>

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2017

3	Treth Gorfforaeth	2017	2016
		£	£
	Treth Ohiriedig	(577)	2,720
	Darpariaeth am y Flwyddyn	<u>(2,041)</u>	<u>4,994</u>
		<u>(2,618)</u>	<u>7,714</u>

4 Gweithwyr

Ar gyfartaledd, roedd nifer y gweithwyr cyflogedig yn 4.

5 Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy

	Tir Rhydd-ddaliad		
	Ac Adeiladau	Offer	Cyfanswm
Cost	£	£	£
Ar Ebrill 1af 2016	743,831	32,240	776,071
Ychwanegiadau	-	252	252
	<u>743,831</u>	<u>32,492</u>	<u>776,323</u>
Ar Fawrth 31 2017			
	<u>743,831</u>	<u>32,492</u>	<u>776,323</u>
Dibrisiant			
Ar Ebrill 1af 2016	23,583	16,889	40,472
Codiant am y flwyddyn	18,349	3,153	21,502
	<u>41,932</u>	<u>20,042</u>	<u>61,974</u>
Ar Fawrth 31 2017			
	<u>41,932</u>	<u>20,042</u>	<u>61,974</u>
Gwerth Ar Bapur Net			
Ar Fawrth 31 2017	701,899	12,450	714,349
Ar Fawrth 31 2016	<u>720,248</u>	<u>15,351</u>	<u>735,599</u>

6	Dyledwyr	2017	2016
		£	£
	Dyledwyr Eraill	3,642	3,192
	Treth Gorfforaeth	2,041	-
	Rhagdaliadau ac incwm a gronwyd	<u>7,908</u>	<u>7,092</u>
		<u>13,591</u>	<u>10,284</u>

7 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn

	£	£
Benthyciad banc	5,564	5,215
Credydwyr eraill	27,553	11,471
Treth Gorfforaeth	-	4,994
TAW	<u>2,448</u>	<u>2,067</u>
	<u>35,565</u>	<u>23,747</u>

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2017

8 Croniadau Ac Incwm Gohiriedig

	£
Ar Ebrill 1af, 2016	198,403
Grantiau a dderbyniwyd	-
Swm a Rhyddhawyd	24,497
	<u> </u>
Ar Fawrth 31, 2017	<u>173,906</u>

9 Credydwy: Symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn

	2017	2016
	£	£
Benthyciadau Banc	<u>57,844</u>	<u>63,406</u>
Dyled yn daladwy mewn mwy na blwyddyn		
ad-daladwy rhwng un a phum mlynedd	26,993	25,347
ad-daladwy ar ol phum mlynedd	<u>30,851</u>	<u>38,059</u>
	<u>57,844</u>	<u>63,406</u>

10 Cronfeydd

	Cronfa
	Gwerth Teg
	£
Ar 1af Ebrill 2016 ac	
Mawrth 31 2017	<u>392,946</u>

11 Blwyddyn Gyntaf FRS 102

Rhyddhad Trosiannol

Ar bontio i FRS 102 mae'r cwmni wedi cymeryd mantais o'r rhyddhad trosiannol canlynol:

- i fesur gwerth teg ar y dyddiad trosglwyddo i FRS 102 ac i'w ddefnyddio fel cost tybiedig ar eitem o eiddo, offer a chyfarpar.

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2017

	2017		2016	
	£	£	£	£
Incwm				
Gwasanaethau		9,780		8,607
Rhent		99,220		68,155
Ffioedd Rheoli		7,706		18,581
Grantiau prosiectau		-		6,000
Canolfan Rhyd Ddu		15,228		4,729
Incwm Arall		<u>90</u>		<u>14,590</u>
		132,024		120,662
 Gwariant				
Grantiau Cyfalaf Yn Cael Eu Rhyddhau	(24,497)		(25,194)	
Cyflogau	40,790		38,382	
Costau Pensiwn	1,078		944	
Costau Teithio	636		1,036	
Costau Rhyd Ddu	4,807		3,531	
Costau Swyddfa	590		844	
Llogi Offer	872		427	
Ffon	1,822		1,497	
Hysbysebu	1,804		6,449	
Costau Cynnal A Chadw	56,654		17,721	
Gwres a Goleuo	7,284		8,318	
Trethi	3,132		2,340	
Yswiriant	10,049		6,349	
Costau Archwilio	2,150		2,050	
Costau Proffesiynol	3,302		3,047	
Costau Banc	912		1,040	
Manion	1,806		760	
Dibrisiant Ar Adeiladau	18,349		23,587	
Dibrisiant Ar Offer	<u>3,153</u>		<u>3,892</u>	
		134,693		97,020
Gweddill am y flwyddyn		(2,669)		23,642



Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle
20 Heol y Dŵr
Penygroes
Gwynedd
LL54 6LR

01286 882688
post@anturnantlle.com

www.anturnantlle.com
www.canolfan-rhyd-ddu.cymru
www.facebook.com/anturnantlle

“Gweithio er lles yr ardal”

